

WorldPride Washington, DC 2025: Cynhadledd Hawliau Dynol a Rhaglen y Deddfwyr (3–6 Mehefin 2025)

Adroddiad ar Daith Ryngwladol

Nid yw ychydig o theatr yn cynhyrfu Washington; fe'i hadeiladwyd ar ei gyfer. Ond ym mis Mehefin 2025—o dan ganopi llachar, digyfaddawd WorldPride—roedd y ddinas yn cynnig rhywbeth mwy defnyddiol na symbolaeth: ymdrech ddwys i droi undod yn arfer gweithredol. Roedd thema Cynhadledd Hawliau Dynol WorldPride yn swnio fel math o frand nes i'r cyd-destun ei droi'n destun llythrennol: *Rhyddid i Rymuso*. Roedd yn rhan o raglen WorldPride ehangach y brifddinas a hanner canfed pen-blwydd dathliadau Pride yn Washington, DC—pen-blwydd a gyrhaeddodd, yn arwyddocaol, yng nghanol dadl newydd ynghylch beth yw ystyr “rhyddid”.

Mynychais fel cynrychiolydd o'r Senedd, gan gymryd rhan yn rhaglen deddfwyr y Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang ac mewn sesiynau yn y Gynhadledd Hawliau Dynol. Roedd tair rhan i bwrpas y daith: cryfhau ymgysylltiad seneddol rhyngwladol Cymru ar hawliau dynol a chydraddoldeb; casglu mewnwelediadau ar amddiffyn hawliau LHDTTC+ yn ystod cyfnodau o wrthwynebiad a pholareiddio; a nodi dulliau sy'n berthnasol i gyfrifoldebau datganoledig yng Nghymru—iechyd y cyhoedd, addysg, tai, diogelwch cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus, a chydlyniant dinesig.

Y cyd-destun: pan fydd ffiniau'n dod yn rhan o'r agenda

Ni chynhaliwyd y gynhadledd hon mewn cyfnod rhyngwladol niwtral. Ymhlith y cynrychiolwyr, roedd dau gerrynt yn arbennig o bresennol.

Roedd y cyntaf yn weinyddol: ansicrwydd eang ynghylch sut y byddai dogfennaeth hunaniaeth a chydabyddiaeth swyddogol o rywedd yn cael eu trin yn ymarferol ar gyfer teithio rhyngwladol i'r Unol Daleithiau, a'r effaith ddilynol y mae hyn yn ei chael ar bwy sy'n teimlo eu bod nhw'n gallu cymryd rhan yn agored ac yn ddiogel. Roedd yr ail yn wleidyddol: ymdeimlad bod hawliau LHDTTC+—yn enwedig hawliau traws a hawliau amrywiol o ran rhywedd—wedi dod yn darged o werth uchel mewn rhyfel diwylliannol traws-wladol, gyda dadleuon a thactegau'n cael eu hatgynhyrchu ar draws ffiniau ar gyflymder y cyfryngau cymdeithasol.

Amlygodd rhaglen y gynhadledd ei hun y pwynt hwn. Bu'n rhaid i'r Arglwyddes Phyll (Phyll Opoku-Gyimah), prif swyddog gweithredol a chyd-sylfaenydd UK Black Pride, gymryd rhan o bell, yn hytrach nag yn bersonol, oherwydd bod ei fisa wedi cael ei wrthod. Pan nad all cynulliad ar hawliau dynol gael amddiffynwyr hawliau dynol yn yr ystafell mewn modd dibynadwy, mae'r ystafell ei hun yn dod yn rhan o'r dystiolaeth.

Rhaglen ddeddfwyr wedi'i hadeiladu fel seilwaith

Ar yr wyneb, roedd amserlen y deddfwyr—a gydlynwyd gan y Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang a phartneriaid gan gynnwys Sefydliad Victory LGBTQ+, y Cyngor dros Gydraddoldeb Byd-eang a Seneddwyd dros Weithredu Byd-eang—yn un

gymdeithasol, ond roedd yna bwrpas y tu ôl iddi. Defnyddiwyd ciniawau a derbyniadau fel cyfleoedd i weithio: mannau lle gallai cynrychiolwyr etholedig gymharu'u sefyllfaoedd yn ddi-flewyn ar dafod, profi syniadau, a meithrin ymddiriedaeth bersonol sy'n gwneud cydweithio yn y dyfodol yn bosibl.

Dydd Mawrth 3 Mehefin – cinio a gynhaliwyd gan Gawcws Cydraddoldeb Cyngresol yr Unol Daleithiau

Dechreuodd yr wythnos gyda chinio a gynhaliwyd gan Gawcws Cydraddoldeb Cyngresol yr Unol Daleithiau. Anerchais y cinio fel Aelod o'r Senedd a defnyddiais y cyfle i gyflwyno Cymru fel partner adeiladol: senedd ddatganoledig a all dreialu syniadau, ymgorffori hawliau mewn gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at normau rhyngwladol trwy arddangosiadau ymarferol.

Cyfarfûm a siaradais â'r **Cynrychiolydd Mark Takano**, Cadeirydd y Cawcws Cydraddoldeb Cyngresol. Buom yn trafod sut mae strwythurau cawcws yn darparu parhad a chefnogaeth gydfuddiannol yn ystod cyfnodau gelyniaethus. Siaradais gyda'r **Cynrychiolydd Sarah McBride** ynghylch y posibilrwydd o ymweliad â'r Senedd yn y dyfodol, a chyda'r **Cynrychiolydd Becca Balint** a'r **Cynrychiolydd Julie Johnson**. Siaradais hefyd â **Ulrike Westerlund** (Riksdag Sweden) a **Jack Lewis** (Tŷ Cynrychiolwyr Massachusetts), gan gymharu dulliau o gynnal cefnogaeth drawsbleidiol a chyfleu diwygiadau mewn amgylcheddau sy'n agored i amheuaeth.

Cafwyd sgwrs hynod o ymarferol gyda chynrychiolydd o **Grindr**, a fynegodd ddiddordeb mewn partneru â Llywodraeth Cymru ar **atal HIV**. Mae'r cynnig yn werth ei drin o ddifrif yn union oherwydd ei fod yn gyfredol: mae canlyniadau iechyd y cyhoedd yn dibynnu fwyfwy ar a yw atal a chyfeirio yn cyrraedd pobl lle maen nhw mewn gwirionedd—ar ffonau, ar blatfformau, ac ym micro-benderfyniadau bywyd bob dydd. Ni all partneriaid digidol ddisodli gwasanaethau cyhoeddus; ond gallant eu cryfhau pan fydd amcanion yn glir a mesurau diogelwch yn gadarn.

Dydd Mercher 4 Mehefin – cyfranogiad gwleidyddol a pheirianwaith etholiad

Prynhawn dydd Mercher, bûm yn lansiad adroddiad y Sefydliad Victory a phartneriaid, **Mapio Cyfranogiad Gwleidyddol LDHTC+ yn yr Amerig a'r Caribî**, yn seiliedig ar fewnwelediadau bron **5,000 o ymatebwyr**. Nid oedd gwers ddyfnach yr adroddiad yn syml ar gynrychiolaeth; roedd ynglŷn â phiblinellau. Nid yw cyfranogiad gwleidyddol yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae'n cael ei recriwtio, ei hyfforddi, ei ariannu a'i amddiffyn. Trafodais gyda'r **Llysgennad Eric Nelson** y posibilrwydd o ehangu elfennau o'r gwaith hwn i gyd-destun Ewropeaidd ehangach—maes lle gall Cymru, fel sefydliad datganoledig sy'n edrych tuag allan, chwarae rhan ddefnyddiol wrth gynnwyl.

Y noson honno, roedd **Gala Balchder Cenedlaethol Equality PAC** yn destun math gwahanol o addysg: sut mae gwaith cydraddoldeb yn cael ei ariannu. Mae Equality PAC yn bodoli oherwydd bod seddi'n penderfynu ar gyfreithiau, a chyfreithiau'n penderfynu ar fywydau. Siaradais gyda's **Seneddwr Tammy Baldwin** a'r **Cynrychiolydd Robert Garcia**, a chyda deddfwyr o'r tu allan i'r Unol Daleithiau gan gynnwys **Susel Paredes** (Periw) a **Jaime López Vela** (Mecsico). Dychwelodd y sgwrs dro ar ôl tro at realiti ymarferol a rennir: mae gwrthwynebwyr cydraddoldeb yn aml yn fwy disgybledig nag y mae eu targedau'n ei dybio; felly rhaid i gefnogwyr fod yn drefnus, nid yn gywir yn unig.

Dydd Iau 5 Mehefin – diplomyddiaeth cawcws ac economeg gofod cymunedol

Atgyfnerthodd sesiwn friffio dros frecwast a gynhaliwyd gan y Cawcws Cydraddoldeb Cynghresol, a agorwyd gan y Cynrychiolydd Takano, fodel y cawcws fel math o wydnwch sefydliadol. Trafodwyd y posibilrwydd o'r Cawcws Cydraddoldeb yn ymweld ag Ewrop a'r DU yn y dyfodol, gan gynnwys y Senedd o bosibl—enghraifft o ddiplomyddiaeth seneddol sy'n fwy na gweithred seremonïol. Mewn cyfnodau anodd, gall cynghreiriaau sydd eisoes wedi'u ffurfio sefydlogi normau pan fydd y drafodaeth gyhoeddus yn troi'n anwadal.

Yng nghartref Llysgennad Iwerddon yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, mewn derbyniad a drefnwyd ar y cyd gan y Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang a phartneriaid, cyfarfûm ag aelodau o **Landtag Berlin**. Crisialwyd pryder a rennir ar draws awdurdodaethau mewn un sgwrs: mae manau cymunedol LHDT+ ffisegol dan straen dwys oherwydd yr argyfwng costau byw a phatrymau cymdeithasu sy'n newid. Trafodon ni, mewn termau archwiliadol, a ddylai llywodraethau ystyried mecanweithiau—ardollau, cyfraniadau wedi'u negodi, gofynion gwerth cymdeithasol, neu ddulliau eraill—y gallai apiau dêtio a phlatfformau cyfagos eu defnyddio i gyfrannu at gynnal seilwaith cymunedol ffisegol. Mae'r syniad yn lletchwith yn wleidyddol, sy'n aml yn arwydd ei fod yn cyffwrdd â rhywbeth go iawn: mae manau cymunedol yn cynhyrchu gwerth cyhoeddus, ond yn ei chael hi'n anodd goroesi ar resymeg y farchnad yn unig.

Y Gynhadledd Hawliau Dynol: rhaglen sy'n darllen fel llawlyfr gweithredu

Roedd y Gynhadledd Hawliau Dynol ei hun (4–6 Mehefin) yn un helaeth. Nid ei rhinwedd oedd ei bod yn ceisio dweud popeth, ond ei bod yn ceisio rhoi'r gallu i bobl wneud rhywbeth—digwyddiad a oedd yn fwy o lawlyfr gweithredu ar gyfer hawliau dan bwysau, yn hytrach na symposiwm academiaidd. Gosododd y cyfarfodydd llawn y fframwaith moesol; ymdriniodd y grwpiau bach â gweithredu; cafodd rhwydweithio ei drin fel offeryn, nid fel mantais.

Nodwedd nodedig oedd sylw ymarferol y gynhadledd i allu dynol. Ochr yn ochr â sesiynau polisi, roedd y rhaglen yn ymgorffori **cefnogaeth lles a chwmsela** parhaus, **Ystafell Heddwch a Gweddi**, a **Dihangfa Synhwyraidd**. Nid meddalwch oedd hyn; realaeth ydoedd. Roedd llawer o gynrychiolwyr yn gweithredu dan straen gwleidyddol a phersonol dwys. Ymdriniodd y gynhadledd â gofal fel rhan o'r seilwaith sy'n sicrhau bod eiriolaeth a gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy.

Cyfarfod llawn agoriadol – Dydd Mercher 4 Mehefin

Cynhaliwyd y sesiwn llawn agoriadol yn y Theatr Genedlaethol o dan ofal **Rayceen Pendarvis** ac roedd yn cynnwys grŵp o leisiau a saerniodd y gynhadledd fel un fyd-eang, croestoriadol ac ymwybodol wleidyddol. Daeth **Jessica Stern**—a wasanaethodd fel Cennad Arbennig yr Unol Daleithiau i Hyrwyddo Hawliau Dynol Pobl LDHTC+—â lens diplomyddiaeth ac atebolrwydd rhyngwladol i'r cyfarfod. Seiliodd yr **Arglwyddes Phyll (Phyll Opoku-Gyimah)** y drafodaeth ar hil, adeiladu cymunedau, a chanlyniadau byw allgáu. Siaradodd **Jen Deerinwater** o safbwynt persbectif cynhenid a chyfiawnder i bobl anabl, gan fynnu na ellir gwahanu hawliau dynol oddi wrth realiti trefedigaetholdeb ac anghydraddoldeb iechyd. Roedd

y cyfraniadau'n wahanol o ran cywair, ond yn cyd-fynd o ran neges: nid agenda un mater yw cydraddoldeb; mae'n brawf o a all cymdeithasau gadw addewidion i'r rhai sy'n cael eu hymylu hawsaf.

Mewn sgwrs â Jessica Stern, trafodais ddiddordeb Cymru mewn alinio polisi domestig â normau hawliau dynol rhyngwladol a'r potensial i sefydliadau datganoledig weithredu fel partneriaid credadwy mewn ecosystem ehangach sy'n cefnogi cydraddoldeb—yn enwedig pan fydd gwleidyddiaeth genedlaethol mewn mannau eraill yn ansefydlog.

Eiriolaeth bwmerang – dysgu bentyg pwysau

Mynychais gyfarfod cyweirnod ar “**eiriolaeth fwmerang**”, cysyniad sy'n gysylltiedig ag ymgyrchu dros hawliau dynol pan fydd llwybrau domestig wedi'u rhwystro neu'n elyniaethus: mae ymgyrchwyr yn harneisio sefydliadau rhyngwladol, cynghreiriaid tramor a chraffu allanol i roi pwysau yn ôl ar lywodraethau sy'n gwrthsefyll. Yr hyn a wnaeth y sesiwn yn anarferol o ddiddorol oedd ei gwrthdroad. Disgrifir y strategaeth yn aml mewn perthynas â chyd-destunau awdurdodaidd; yma roedd yn cael ei thrafod yng nghanol democratiaeth hirsefydlog, fel ymateb i'r posibilrwydd o ddirywiad cyflym.

I Gymru, nid yw'r perthnasedd yn ymwneud â'r ffaith ein bod yn rhagweld yr un ddeinameg sefydliadol, ond y dylem gydnabod gwerth strategol rhwydweithiau rhyngwladol ar gyfer democratiaethau datganoledig. Pan fydd hawliau'n dod o dan ymosodiad rhethregol, gall dilysu a phartneriaeth allanol helpu i sefydlogi normau gartref. Weithiau caiff diplomyddiaeth seneddol ei diystyru fel rhywbeth meddal. Mewn gwirionedd, dyna'n aml sut mae safonau'n cael eu hamddiffyn.

Economeg a chydraddoldeb – beth yw cost gwahaniaethu

Mynychais i hefyd “**Economeg Pontio a Hawliau Dynol LGBTQIA2S+**”, a gyflwynwyd gan **MV Lee Badgett**, economegydd sy'n adnabyddus am fesur cost gwahaniaethu a manteision economaidd cynhwysiant. Nid oedd y ddadl yn ymwneud ag a ddylai hawliau ddibynnu ar ddefnyddioldeb economaidd, roedd yn fwy cynnil na hynny: mae gwrthwynebwyr yn aml yn honni bod cydraddoldeb yn bryder i'r elit, sydd wedi'i wahanu o "fywyd go iawn". Mae lens economaidd yn niweidio'r honiad hwnnw. Mae gwahaniaethu yn effeithio ar farchnadoedd llafur, canlyniadau iechyd, cynhyrchiant, addysg a symudedd cymdeithasol. Nid yw cynhwysiant yn ychwanegiad diwylliannol; mae'n amod sy'n galluogi ffyniant ehangach.

Mae dull Cymru ar waith yn barod. Mae Cymru eisoes yn fframio ei pholisi cyhoeddus o amgylch atal, lles a lleihau niwed hirdymor. Mae syniadau Badgett yn awgrymu cam pellach: trin cynhwysiant LHDT+ fel elfen fesuradwy o strategaeth economaidd—trwy iechyd y gweithlu, cefnogaeth iechyd meddwl, ymyraethau gwrthfwlio mewn addysg, a gwasanaethau cyhoeddus cynhwysol sy'n lleihau effeithiau costus yn ddiweddarach.

Y gyfraith fel offeryn byw – a chwestiwn Cymreig am CEDAW

Un o'r sesiynau mwyaf ffrwythlon i mi oedd trafodaeth am y **tirwedd cyfreithiol byd-eang** dan arweiniad **Paula Gerber**, y mae ei gwaith yn cwmpasu cyfraith

hawliau dynol rhyngwladol a chydraddoldeb LHDT+. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd fframweithiau cyfreithiol nad ydynt yn ddatganiadol yn unig ond yn weithredol—hawliau y gellir eu gorfodi, sefydliadau sydd â dyletswyddau, ac eglurder ynghylch rhwymedïau.

Fe wnaeth hyn ysgogi cwestiwn o'r llawr gennyf i ac ystyriaeth Gymreig benodol: y potensial ar gyfer integreiddio confensiynau rhyngwladol yn gryfach ac yn fwy penodol—megis **CEDAW**—ym mhensaernïaeth gyfreithiol a pholisi Cymru, yn enwedig lle mae cydraddoldeb traws yn croestorri ag amddiffyniadau sy'n seiliedig ar ryw a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus. Nid mewnforio dadleuon cyfreithiol ar raddfa fawr yw'r pwynt, ond sicrhau bod gan Gymru ddull egwyddorol, sy'n seiliedig ar hawliau i ddatrys tensiynau y mae eraill yn ceisio eu cynhyrfu. Mewn byd o naratifau wedi'u polareiddio, mae prosesau'n bwysig: dyletswyddau clir, safonau clir, a gwneud penderfyniadau tryloyw.

Model lleol gyda photensial allforio – Deddf Hawliau Dynol DC

Roedd y rhaglen yn cynnwys sesiwn ar **Ddeddf Hawliau Dynol DC** fel model. Cyfarfûm ag unigolion sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn ar wahân, ac roedd y casgliad yn syml: mae fframweithiau cydraddoldeb cynhwysfawr o bwys pan gânt eu hintegreiddio i beirianwaith gorfodi a dylunio gwasanaethau o ddydd i ddydd. Nid testun yn unig yw statud hawliau; mae'n hyfforddiant, canllawiau, trin cwynion, goruchwyliaeth a disgwyliad diwylliannol.

I Gymru—lle mae'r ddadl yn parhau ynghylch sut i gryfhau dull hawliau dynol penodol o fewn cymhwysedd datganoledig—mae enghraifft DC yn ailfframio'r cwestiwn yn ddefnyddiol. Nid “fersiwn Gymreig” symbolaidd o rywbeth arall yw'r nod. Y nod yw creu ecosystem lle mae hawliau'n llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â thai, addysg, iechyd a gwasanaethau lleol, a lle mae mecanweithiau gorfodi yn ddealladwy ac yn hygyrch.

Gwydnwch democrataidd – sgwrs yn y Sefydliad Democrataidd Cenedlaethol

Y tu hwnt i leoliadau'r gynhadledd, cyfarfûm yn y **Sefydliad Democrataidd Cenedlaethol** i drafod prosiectau cyfranogiad gwleidyddol byd-eang sy'n cynnwys cymunedau LHDT+. Defnyddiais y cyfarfod i godi ymwybyddiaeth o waith y Senedd ar iechyd democrataidd, gan gynnwys ein ffocws ar safonau ac uniondeb gwleidyddol (yn enwedig y cwestiwn o dwyll bwriadol mewn gwleidyddiaeth). Weithiau mae'r cysylltiad rhwng y pynciau hyn yn cael ei golli: mae mudiadau gwrth-hawliau yn ffynnu mewn amgylcheddau lle mae camwybodaeth yn cael ei normaleiddio a lle mae ymddiriedaeth yn chwalu. Felly, mae amddiffyn hawliau yn gofyn nid yn unig am bolisi a chyfraith, ond am hylendid democrataidd hefyd.

Dydd Gwener: deddfwyr ar y rheng flaen, a gweledd am bris

Roedd rhaglen dydd Gwener yn dwyn ynghyd dau fath o wleidyddiaeth: y deddfwriaethol a'r diwylliannol. Fe wnaeth drin y ddau fel materion difrifol.

Mynychais **Ar Reng Flaen Cydraddoldeb – Deddfu i Amddiffyn Hawliau LHDTC Ar Draws y Byd**, wedi'i gymedroli gan **Evan Low** (LGBTQ+ Victory Institute), gyda'r panelwyr **Susel Paredes** (Periw), **Jaime López Vela** (Mecsico),

Julie Johnson (Tŷ Cynrychiolwyr yr Unol Daleithiau) a **Alessandro Zan** (Senedd Ewrop). Roedd y drafodaeth yn un agored ynghylch uwchgyfeirio iaith casineb, lluosogi biliau gwrth-hawliau, a pha mor fregus yw cyllid a rhaglenni sy'n gysylltiedig â HIV pan fydd gwleidyddiaeth yn dwysau. Roedd sawl thema o berthnasedd uniongyrchol i Gymru: gwerth rhwydweithiau deddfwriaethol trefnus; pwysigrwydd trin iechyd y cyhoedd—yn enwedig atal HIV a chydraddoldeb iechyd—fel materion canolog i gydraddoldeb; a'r angen am baratoi yn hytrach na byrffyrrio wrth ymateb i adlach sydd wedi'i gydlynu.

Yna symudodd y gynhadledd—trwy fwriad—o statud i stori. Ymdriniodd panel **Mae Drag yn Cymryd Safbwynt** gyda **Bob the Drag Queen, Courtney Act, Mrs Kasha Davis** a **Peppermint** â drag nid fel adloniant yn erfyn am oddefgarwch, ond fel mynegiant dinesig—dychan, anghydfurfiaeth, adrodd straeon cymunedol, a gwrthod bwriadol gweladwy i gilio. Nid diwylliant yn disodli polisi oedd y pwynt. Y pwynt oedd fod diwylliant yn newid y tywydd emosiynol lle mae polisi yn bosibl.

Yr hyn a fireiniodd y ddadl honno ymhellach oedd sesiwn sbotolau arall yn y rhaglen: **Pŵer a Dyletswydd Gwelededd mewn Hawliau Dynol**, wedi'i chymedroli gan **Wilson Cruz**, gyda chyfranogwyr oedd yn cynnwys **Raven-Symoné, Trace Lysette, Laith Ashley**, a **Brian Michael Smith**. Roedd yn ddefnyddiol o ran cymhlethu'r dywediad hawdd bod "gwelededd bob amser yn dda". Gall gwelededd rymuso; gall hefyd fod yn fector ar gyfer targedu. Fe wnaeth y sesiwn gyflwyno gwelededd cyhoeddus fel cyfrifoldeb a risg—mewnwelediad sy'n bwysig i ddeddfwyr, sefydliadau cyhoeddus a chymunedau mewn amgylchedd cyfryngau lle gellir defnyddio sylw fel arf.

Beth a gynigiodd yr wythnos hon i Gymru

Nid Cymru yw America, ac nid y Senedd yw'r Gyngres. Ond cynigiodd yr wythnos yn Washington eglurder ar nifer o wirioneddau trosglwyddadwy.

- **Gall hawliau ddirywio'n gyflymach nag y mae sefydliadau'n ei ddisgwyl.** Siaradodd llawer o gynrychiolwyr o safbwynt realaeth pobl a oedd yn tybio bod cynnydd yn wydn nes y profwyd i'r gwrthwyneb. Nid ffataliaeth yw'r ymateb cywir, ond systemau cadarnach.
- **Sefydliadau'n curo arwriaeth.** Roedd y gwaith mwyaf effeithiol a oedd yn cael ei arddangos—trefniadaeth cawcws, piblinellau ymgeiswyr, peirianwaith ariannu, rhwydweithiau trawsffiniol—wedi'i gynllunio i oroesi unigolion.
- **Gwasanaethau cyhoeddus yw lle mae cydraddoldeb yn dod yn realiti.** Cydraddoldeb iechyd, diogelwch ysgolion, sefydlogrwydd tai, hyder diwylliannol a darpariaeth rheng flaen gymwys yw'r mynegiant materol o urddas dynol—ac mae gan Gymru ddulliau ystyrlon yn y meysydd hyn.
- **Mae uniondeb democrataidd a hawliau dynol yn gysylltiedig.** Pan fydd gwleidyddiaeth yn gwobrwyo ystumio bwriadol, mae hawliau lleiafrifoedd yn dod yn haws i'w tanseilio. Felly, mae cryfhau safonau democrataidd yn rhan o ddiogelu hawliau.

Casgliad: rhyddid fel ffabrig

Siaradodd WorldPride DC am “ffabrig rhyddid”. Gwnaeth y Gynhadledd Hawliau Dynol y metaffor yn ymarferol. Nid tlws yw ffabrig; mae'n ddeunydd. Mae'n treulio pan gaiff ei esgeuluso, yn cryfhau pan gaiff ei atgyfnerthu, ac yn dal orau pan gaiff ei wehyddu â gormodedd—llawer o edafedd, nid un.

Roedd yr wythnos yn Washington, ar ei mwyaf perswadiol, yn ddadl dros y math yna o blethu: deddfwrfeydd yn gweithio gyda chymdeithas sifil; polisi'n ategu diwylliant; tystiolaeth yn cryfhau eglurder moesol; a gofal yn cael ei drin fel rhan o seilwaith dygnwch. Dylai Cymru fod yn un o'r dwylo sy'n helpu i gadw'r pwythau'n dynn.